# Cenn@d

MEDI 4 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 184

O'R BYD A'R BETWS

## Cyfryngau cyfathrebu?

Yn ystod fy ngwyliau eleni gyda'r teulu ar Ynys Menorca, aethom i ymweld ag El Tora, mynydd uchaf yr ynys, ac arno roedd lleiandy sylweddol. Roedd darn gwreiddiol yr adeilad yn dyddio 'nôl i'r 13g ac wrth ei ochr safai mast anferthol i drosglwyddo negeseuon ffonau symudol a gwasanaeth teledu, mae'n siŵr. Roedd y naill fel y llall yn cyfathrebu gwybodaeth a gwasanaethau ledled yr ynys, a hawlir bod yr ynys gyfan yn gweld y mynydd ac felly ei fod yn lleoliad ardderchog i ddibenion y cyfathrebwyr oll.



Prin bod mynyddoedd yn lleoliadau hwylus i adeiladu tŷ cwrdd yn ein cyfnod ni. O ganol y 19g ymlaen, gyda phoblogaeth cefn gwlad ar gynnydd a'r diwygiadau ar garlam, gwelwyd cyfanswm aelodaeth eglwysi anghydffurfiol yng Nghymru ar ei fan uchaf. Roedd codi tai cwrdd yn digwydd mewn gwlad a thref. Dechreuodd y diwydiant glo ddenu gweithwyr o bob rhan o Gymru, yn arbennig o'r ardaloedd gwledig a ddioddefodd lawer o dlodi yn y cyfnod hwnnw. Wrth adael Dyfed a Gwynedd, byddent yn dod â'u harferion crefyddol gyda hwy ac yn adeiladu capeli ar gyfer yr eglwysi o enwadau amrywiol, a'r rheini yn eglwysi Cymraeg eu hiaith.

Yn ystod fy nghyfnod i yn y weinidogaeth, caewyd yn agos i 85% o'r capeli hynny, ond buont yn allweddol i ddiogelu'r iaith Gymraeg rhwng 1870 ac 1960 yn y cymoedd hyn, y ddwy Rhondda, Cynon, Taf, a Rhymni. Sefydlwyd yr ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth i'r eglwysi edwino, ac er mai Saesneg yw cyfrwng ieithyddol y gymdeithas gynhenid, maent yn aeddfed i genhadaeth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosodd Eisteddfod Genedlaethol Rhondda, Cynon, Taf fod yr awch i hyrwyddo'r Gymraeg, ei dysgu a'i harfer ar gynnydd yn y broydd difreintiedig hyn.



Cam arall yw deffro'r trigolion i berthnasedd Efengyl Iesu i'w bywydau hwy. Y cwestiwn y carwn ei ofyn i ddarllenwyr *Cenn@d* yw pa fath o gyfathrebu ieithyddol a chymdeithasol sy'n amlwg 'o ben y mynydd'. Os mai'r trosglwyddo digidol, Americanaidd / Seisnig, sy'n nodweddu'r cyfan, bydd yr ifanc yn tiwnio i mewn i operâu sebon digidol, disylwedd ag idiomau Americanaidd. Er mor hwylus yw'r ffonau symudol â'r sianeli amheus sy'n denu'r ifanc, maent hefyd yn gyfrwng creu llanast moesol a chymdeithasol.

Un o ddigwyddiadau ysgytwol mis Awst yn Lloegr oedd yr ymosodiad ar ferched ifanc mewn dosbarth dawnsio. Digwyddiad erchyll heb os, ac ni wyddom beth gymhellodd y gŵr ifanc hwn i ddefnyddio'i gyllell i gyflawni'r fath anfadwaith. Lledwyd stori anghywir am y dyn ymhlith sawl carfan 'asgell dde' wleidyddol (yn ôl y Prif Weinidog). Datblygodd sefyllfaoedd terfysgol yn sydyn iawn mewn sawl man yn sgil hyn. Hawlir bod y terfysgwyr yn medru cysylltu â'i gilydd yn hawdd drwy'r cyfryngau digidol. Perygl yn wir.

Mae'r lleiandy ar fynydd El Tora yn dal i gyfathrebu neges sylfaenol a pherthnasol i drigolion ac ymwelwyr yr ynys hyfryd hon. Mae'n cyfathrebu gras a thrugaredd, heddwch a maddeuant, gobaith a chariad i fyd creulondeb a thrais, y byd sy'n ddi-hid i unigrwydd a thlodi, i fyd anobaith ac anghyfiawnder, gan gyfathrebu cariad Duw yn Iesu Grist i fyd hunanol a threisgar. (Ioan 3:16)

*Denzil John*

*Poems from the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*, M. Wynn Thomas
**Tudalen 4**

O'r galon
**Tudalen 5**

Gawsoch chi wyliau braf?
**Tudalen 8**

# Cofio Epynt ar Ddiwrnod Heddwch Rhyngwladol

Mae Cymdeithas y Cymod law yn llaw gyda Heddwch ar Waith yn eich gwahodd i Fynydd Epynt i nodi Diwrnod Heddwch Rhyngwladol 2024.

Byddwn yn ymgynnull am 2 o'r gloch, dydd Sadwrn, 21 Medi, wrth Ganolfan Ymwelwyr Llwybr yr Epynt (LD3 9RG – rhwng Capel Uchaf a Llangamarch).

Ein bwriad yw codi ymwybyddiaeth o hanes Epynt a'r ffaith fod y fyddin yn dal ar dir Mynydd Epynt, 84 mlynedd yn ddiweddarach. Byddwn yn galw ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i ddychwelyd y tir i bobl yr ardal.

Gair gan Cadeirydd Cymdeithas y Cymod, Robat Idris:

> 21ain Medi yw Diwrnod Heddwch Rhyngwladol. Priodol iawn i ni yng Nghymdeithas y Cymod felly yw mynd i'r Epynt, ardal eang o dir a fu'n eiddo i'r Cymry ers cyn cof. Ym 1940 trowyd dros 219 o bobl a phlant o 54 o aelwydydd gan y Llywodraeth er mwyn creu maes i ymarfer rhyfela. Erys y mynydd-dir hwn yn nwylo'r Weinyddiaeth Amddiffyn i'r un pwrpas hyd y dydd heddiw. Gyda chymaint o ryfela a sôn am ryfela heddiw, rhaid i ni geisio cymod a heddwch. Credwn ei bod yn hen bryd i'r tir hwn a rwygwyd o afael y trigolion gael ei ddychwelyd i bobl Cymru, fel bod y tir yn cael ei adfer i ddefnydd heddychlon. Y digwyddiad hwn ar Epynt yw'r cyntaf o gyfres o ddigwyddiadau yn arwain at 30 Mehefin 2025, sef pen-blwydd y Troi Allan.

Byddwn yn cynnal cyfarfod byr i gyhoeddi nod ein digwyddiad ac wedyn yn gofyn i bawb ffurfio rhes hir ar y rhiw y tu ôl i'r Ganolfan Ymwelwyr yn dal baneri a phlacardiau, a sefyll yn dawel am gyfnod o 10 munud. Y bwriad wedyn yw clymu'r placardiau ar y ffens sy'n amgylchynu'r Ganolfan Ymwelwyr, a'u gadael yno i atgoffa ymwelwyr eraill am yr hanes.

Mae Llwybr yr Epynt yn llwybr cyhoeddus o amgylch y maes milwrol (taith o 65km i gyd). Nid oes angen caniatâd arbennig i gerdded y llwybr, ac ar ddiwedd ein tystiolaeth bydd croeso i chi gerdded rhan o'r llwybr, taith gylch o ryw awr a hanner: https://www.epyntway.org/.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni ar y diwrnod hwn, a wnewch chi ebostio: epynt2025@gmail.com er mwyn i ni rannu mwy o wybodaeth am y trefniadau. Rydym yn annog pobl i rannu ceir, felly ebostiwch os ydych yn chwilio am lifft neu'n gallu cynnig lifft, neu os ydych yn fodlon gwirfoddoli fel stiward parcio.

Diolch!

*Robat Idris (Cadeirydd)*
*Siân Evans (Cydlynydd)*
*Catrin Atkins (Ysgrifennydd)*

## Dathlu 250 mlwyddiant Jewin

Cynhelir cyfarfodydd arbennig i ddathlu 250 mlwyddiant Eglwys Gymraeg Jewin, Llundain.

**Dydd Sadwrn, 7 Medi**
Te prynhawn am 3yp, a chyngerdd i ddilyn am 5yh gyda'r Joyful Company of Singers. Bydd yn cynnwys darn o gerddoriaeth a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer y pen-blwydd: 'Yma' gan Gareth Glyn (2024) ar eiriau gan Iwan Teifion Davies

**Dydd Sul, 8 Medi**
Gwasanaeth am 10.45 o'r gloch dan arweiniad y gweinidog, y Parchg Richard Brunt

*Llinos Morris*
*Ysgrifennydd*



# Deall y Beibl yn Well

Dros fisoedd y gaeaf (2023/24) fe gynhaliodd Cristnogaeth21 bedair sgwrs rithiol dros Zoom dan y pennawd 'Deall y Beibl yn Well'.

Bwriad y sesiynau oedd cynnig cyfleoedd, dan arweiniad dau o'r academyddion Beiblaidd Cymraeg praffaf, i gael gwell dealltwriaeth ar agweddau o'r Ysgrythurau.

Cafwyd dwy sesiwn gan yr Athro Eryl Wynn Davies, a draddododd gyflwyniad i'r Ysgrythurau Hebraeg (yr Hen Destament). Traddododd yr Athro Catrin Haf Williams ddwy sgwrs ar y Testament Newydd: un ar agweddau'r Testament Newydd at Iddewiaeth ac un ar agweddau'r Testament Newydd at fenywod. Bu derbyniad da iawn i'r sgyrsiau, gyda nifer yn holi am gyfle i'w dilyn eto.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod y cyflwyniadau hyn bellach i'w gweld ar-lein ar ein sianel YouTube, Cristnogaeth 21 Cymru.

Maen nhw o ddiddordeb i unigolion sy'n ymddiddori mewn beirniadaeth Feiblaidd. Mae'n bosib eu defnyddio hefyd fel adnodd ar gyfer trafodaethau grŵp. Mwynhewch y sgyrsiau. Edrychwn ymlaen at ychwanegu at ein deunydd gweledol ar ein sianel YouTube yn fuan.

*Cristnogaeth 21*
*www.cristnogaeth21.cymru*

# Cyfarfod Gweddi Cenedlaethol Misol EBC

Bu'r Cyfarfodydd Gweddi Cenedlaethol cyntaf yn ystod ein Hwythnos Weddi ym mis Mai yn wir ysbrydoliaeth i mi. Am y tro cyntaf erioed roeddwn yn gweddïo gyda rhai pobl roeddwn wedi dod i'w hadnabod yn eithaf da, a thrwy dreulio amser gyda nhw ym mhresenoldeb Duw teimlwn fy mod wedi tyfu yn fy ngwerthfawrogiad ohonynt ac o'u profiad o fywyd. Roeddwn hefyd yn gallu gweddïo gyda phobl nad oeddwn erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen, a thrwy'r profiad hwnnw fe gefais ymdeimlad cryf o gysylltiad â nhw. Cadarnhaodd yr wythnos hefyd y gwirionedd sy'n amlwg iawn ym mhrofiad yr Eglwys Fore, sef fod gweddi'n adeiladu cymuned.

Wrth ddarllen pedair pennod gyntaf llyfr yr Actau, mae'r modd y ffurfiwyd y gymuned gyntaf honno o gredinwyr o amgylch yr arfer o weddi yn drawiadol. Eu hymateb greddfol i weld esgyniad eu Gwaredwr oedd gweddïo (1:14). Dim ond ar ôl iddynt ymuno â'i gilydd mewn gweddi (1:24) y gwnaed penderfyniadau pwysig. Mor bwysig oedd gweddi i'w hunaniaeth fel cymuned nes i bob un o'i haelodau ymroi i weddïo (2:42). Drwy weddi yr oedd Duw'n cryfhau eu ffydd a'u dewrder i oresgyn yr heriau niferus oedd yn eu hwynebu (4:31).

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd ffurfio'r credinwyr cynnar hynny'n gymuned gref a gwydn. Nid yn unig yr oedd angen ymdeimlad o berthyn arnynt a fyddai'n gwrthsefyll yr erledigaeth a gâi ei hyrddio atynt, ond roeddent hefyd yn ymwybodol iawn taw nhw oedd y gymuned ffydd a fyddai'n arwain at bob eglwys arall. Drwy weddi y ffurfiwyd y gymuned wydn hon a fyddai'n trawsnewid y byd.

Wedi ein calonogi gan y gwirionedd hwn a chan brofiadau ein Cyfarfodydd Gweddi Cenedlaethol cyntaf, byddwn yn dechrau cynnal Cyfarfod Gweddi Cenedlaethol misol ar 3 Hydref. Y bwriad yw cynnal y cyfarfodydd hyn ar Zoom am 7 o'r gloch ar ddydd Iau cyntaf pob mis.

Byddwn yn eich annog i gadw'r nosweithiau yma'n rhydd yn eich dyddiadur ac ymuno â ni i weddïo dros Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r byd (gweler y ddolen isod). P'un a ydych yn gweddïo'n uchel ai peidio (wnes i mo hynny yn y Cyfarfod Gweddi Cenedlaethol diwethaf, ond fe gefais fy mendithio gan y profiad, serch hynny), bydd bod yno'n cyfoethogi eich ymdeimlad o berthyn i'r Eglwys ac o rannu yng ngwaith parhaus Crist yng Nghymru. Drwy ymuno â ni, byddwch yn cyfrannu at adeiladu cymuned ffydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru a thu hwnt.

https://us02web.zoom.us/j/83791528924?pwd=tvfOfcibEwhomoXvm5LaQayfVaq0F2.1
Rhif y cyfarfod: 837 9152 8924
Cod: 858751

*Owen Griffiths*
*Henaduriaeth y De-ddwyrain*

# Cofio Lewis Young-Hayden (1912–89), un o bregethwyr grymusaf y Bedyddwyr Cymraeg yn yr ugeinfed ganrif

Ganwyd y pregethwr ysgubol hwn ar 8 Gorffennaf 1912 yng Nghaerau, ger Maesteg, yn ail fab i Elisabeth a William Hayden. Collodd ei fam yn ei blentyndod, a chymerodd ei fam-gu Eunice Young, mam y brodyr enwog o bregethwyr: Jabes, Glasnant, Jubilee ac Owen, ef a'i frawd Tom i'w chartref yn Aberafan, Morgannwg. Derbyniodd ei addysg yn Aberafan. Ar ôl dyddiau ei fam-gu bu'n gyfnod hynod o anodd arno hyd nes i'w ewythr, y Parch. Glasnant Young, a'i briod ofalu amdano yn eu cartref yng Nghwm-twrch. Yn bymtheg oed cafodd waith yn y gwaith tun. Daeth i adnabod to o fechgyn oedd wedi eu llwyr gyfareddu gan weinidogaeth ei ewythr, bechgyn a elwir yn 'gywion Glasnant', sef Rufus Roberts a'r tri brawd: John Glyndwr Davies, Felin-foel; Gerson Davies, Tonpentre; ac Alun J. Davies, Calfaria, Aberdâr. Daeth pob un ohonynt yn weinidogion yn yr enwad.

Pan symudodd y Parch. Glasnant Young o Gwm-twrch i weinidogaethu yn Llanymddyfri, arhosodd y nai yn ei waith, gan letya gyda theulu llengar amlwg yn y cylch, teulu Daniel Jones. Bu ef yn gefnogwr di-ail iddo, gan ei gymell i ddefnyddio'i ddoniau yn gyhoeddus o fewn byd y capel. Aeddfedodd Young-Hayden fel siaradwr a gweddïwr cyhoeddus. Teimlodd alwad i ddilyn ei ewythredd i'r 'barchus, arswydus swydd', a gadawodd y gwaith tun am Ysgol Myrddin yng Nghaerfyrddin. Yn ddiymdroi, daeth yn atyniad fel pregethwr gan ei fod erbyn hyn yn meddu ar yr 'hwyl' Cymreig. Enillodd le i astudio ymhellach yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerydydd, ond ni dderbyniodd y cynnig gan iddo gael ei ddenu i ogledd Penfro, i ofalu ar ôl Capel Bethabara, a hynny yn 1937. Yn y cyfarfod sefydlu ac ordeinio gwelid y pedwar ewythr enwog yn bresennol.

Dyma ddechrau pennod arall yn hanes y pregethu dathliadol ym mhulpudau'r Bedyddwyr Cymraeg. Daeth enw Young-Hayden yn enw cyfarwydd ym mhob rhan o'r enwad. Gwahoddid ef yn gyson i bregethu yng nghymanfaoedd a chyrddau pregethu ei enwad ac edrychwn ymlaen i'w glywed yn nyddiau fy ngweinidogaeth yng Nghwm Cynon. Cysegrodd ei holl fywyd i bregethu teithiol. O'i ganolfan yng ngogledd Penfro, meddyliai am bregethu o fore tan nos. Dyna oedd ei sgwrs ar yr aelwydydd ledled y wlad pan ddeuai i aros dros yr ŵyl bregethu. Canolbwyntiodd ar bregethu drwy gyfrwng y Gymraeg. Priododd â Myfanwy Rees, Llanymddyfri, ym mlwyddyn ei ordeinio, ond bu hi farw'n ifanc, ac ailbriododd â Glenys Evans o'r Hendy, ger Pontardawe.

Yn ddiweddarach, bu'n gweinidogaethu yn y Felinganol o fewn Cymanfa Penfro ac yna, er cryn syndod i'w gyfeillion, symudodd i ardal ac eglwys oedd yn brwydro i gynnal y dystiolaeth yn Gymraeg, sef Noddfa, Treorci. Sylwodd aml un nad oedd ei gyffelybiaethau o fyd cefn gwlad yn taro deuddeg yng nghymoedd glo Morgannwg. Derbyniodd alwad o Dreorci i eglwysi'r Bedyddwyr ym Mhencader a Rhydargaeau, sir Gaerfyrddin. Bu farw ar 7 Gorffennaf 1989 ac ymysg y gweinidogion a wasanaethodd yn ei arwyl yr oedd y Parch. John Young, Llandeilo, cefnder iddo ac un arall yn llinach hil adnabyddus teulu Eunice Young, Aberafan.

**Ffynhonnell**
*Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru* 1990, tt. 83–5; adnabyddiaeth bersonol, yn arbennig yn ystod ei gyfnod yng Nghwm Rhondda.

*D. Ben Rees*

## Cymdeithasfa'r De, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Bydd cyfarfod o Gymdeithasfa'r De yn cael ei gynnal ddydd Iau, 12 Medi 2024, yng Nghapel Eglwys y Drindod, Cockfosters, Llundain (Henaduriaeth Morgannwg Llundain). Bydd yr eisteddiad cyntaf yn cychwyn am 10.30 y bore.

Byddwn yn cynnwys dau gyfarfod cyhoeddus, sef Gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn yr eisteddiad cyntaf, a'r ail eisteddiad yn y prynhawn pan fyddwn yn clywed am waith ein Swyddog Plant ac Ieuenctid/Ymestyn Allan, Mrs Miriam Watling.

Byddwn yn trosglwyddo Llywyddiaeth y Gymdeithasfa o'r Parchedig Richard Brunt, Llundain, i'r Parchedig Carwyn Arthur, Tregaron, a'r Ysgrifenyddiaeth i'r Parchedig Emyr Williams.

Gweddïwn am arweiniad yr Arglwydd ar yr holl weithgareddau.

Yr eiddoch yng Nghrist,

*R. Anthony Platt*
*Ysgrifennydd y Gymdeithasfa*

## Cwrs PowerPoint a'r Pulpud – defnyddio technoleg mewn oedfaon

Trefnwyd y cwrs byr hwn gan y Parch. Emyr Williams, Gweinidog Gofalaeth y Gwendraeth, Henaduriaeth Myrddin, ac fe gafodd ei gynnal yn Festri Capel Newydd, Llanddarog, dan arweiniad Emyr gyda chymorth ei fab, Siôn.

Bwriad y cwrs oedd hybu defnydd effeithiol o dechnoleg mewn oedfaon drwy gyfrwng rhaglen Microsoft PowerPoint. Roedd Emyr wedi paratoi taflenni pwrpasol ar ein cyfer yn egluro beth yw PowerPoint a sut i'w ddefnyddio. Cafwyd cyfarwyddiadau sut i agor ffeil, ychwanegu a chadw sleidiau, copïo geiriau emynau a lluniau, clipiau sain a fideo i'r sleidiau.

Cafwyd cyfleoedd i ymarfer yr hyn a gyflwynwyd gan Emyr ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am baratoi'r cwrs ac am ei gymorth ymarferol (a'i amynedd).

Am ragor o wybodaeth am y cwrs neu os byddech yn dymuno trefnu cwrs tebyg yn eich ardal chi, mae croeso i chi gysylltu â mi i drafod. Fy nghyfeiriad e-bost yw rhys.jones@ebcpcw.cymru.

*Rhys Bebb Jones*
*Cydlynydd Hyfforddiant EBC*

# *Poems from the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*, M. Wynn Thomas

Yn gynharach eleni daeth rhodd annisgwyl drwy'r post, sef llyfr newydd M. Wynn Thomas, *Poems from the Soul – Twelve of the Great Hymns of Wales*. Mae'n ysbrydoliaeth yn wir, ac rwyf wedi dychwelyd ato dro ar ôl tro yn ystod y misoedd diwethaf hyn.

Yn y gyfrol hon mae Thomas wedi cyfieithu i'r Saesneg ddeuddeg emyn Cymraeg adnabyddus a'u gosod ochr yn ochr â'r gwreiddiol. Mae yma ragymadrodd craff a phwrpasol, a nodiadau ar bob emyn ynghyd â'u tonau. Yn ogystal, mae darluniau trawiadol Ruth Jên Evans trwy'r llyfr yn goleuo sylwadau'r awdur ac yn gymorth i fyfyrio drostynt.


Yn ei ragymadrodd cyfeiria Thomas at hoffter annisgwyl y nofelydd D. H. Lawrence o emynau. Magwyd Lawrence yn y traddodiad ymneilltuol Saesneg a chofiai ganu emynau yn y capel pan oedd yn blentyn: capel a oedd, meddai, 'yn uchel ac yn llawn goleuni ac yn llonydd'.

Pwyslais Thomas yw fod emynau enwocaf Cymru yn drysordai o brofiad ysbrydol oes sydd wedi hen ddiflannu. Maent yn adlewyrchu nodweddion gorau diwylliant y capeli Cymraeg ac yn rhoi llais i brofiadau sydd o hyd yn berthnasol am eu bod yn codi o anghenion oesol. Ynddynt rydym yn canfod y llawenydd a'r gofidiau sy'n rhan o brofiad pawb ohonom, profiadau sy'n ein clymu'n un ddynoliaeth gyffredin.

Mae'n nodi fod gwedd gymdeithasol yn ogystal â gwedd bersonol i emynyddiaeth Cymru. Cawn ein hatgoffa, er enghraifft, o ddioddefaint ac ofn dychrynllyd milwyr yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Mawr, a'r modd y cawsant gysur a nerth wrth ganu emynau. Yma yn Llundain mae yna bobl sy'n dal i gofio arfer y Cymry o ddod at ei gilydd mewn profedigaeth i ganu emynau eu mamwlad yng ngorsafoedd Euston a Paddington wrth iddynt ffarwelio â'u hanwyliaid ar eu taith olaf yn ôl i Gymru.

Fel un sy'n dal ati i ddysgu'r iaith, mae *Poems from the Soul* wedi cynnig cyfle o'r newydd i mi i ddyfnhau fy nealltwriaeth a'm gwerthfawrogiad o emynau Cymraeg. Yn aml maent wedi cael eu cyfansoddi gan werinwyr yn hytrach nag enwogion, ac ynddynt fe gawn drysor gwerthfawr.

Mae Thomas ei hun yn cyffesu bod yr emynau hyn wedi dod â rhyfeddod i'w fywyd, ac ni allwn lai na chytuno ag ef oherwydd gall yr emynau hyn gyffwrdd â'n calonnau, ein meddyliau a'n heneidiau ninnau hefyd.




*Richard Brunt*
*Llundain*

**(*Poems from the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*, M. Wynn Thomas. Calon, 2024; pris £12.99)**

# O'r galon

## Hadau gwirionedd a heuwyd

"Gwrandewch! Aeth heuwr allan i hau." (Marc 4:3)

Pa sawl tro glywsoch chi'r ddameg hon? Sawl pregeth am y tiroedd gwahanol? Ohonynt i gyd, beth gofiwch chi a pha ffrwyth sydd gennych i ddangos hynny?

Rhag eich bod yn meddwl fy mod yn rhyfygus, mi wn ei bod yn anodd cofio manylion neu pwy ddywedodd beth fel a'r fel. Nid ceisio herio'r cof ydw i, ond am i ni edrych i weld beth ddigwyddodd i'r had. Ac felly, nid am weld allech chi gofio'r tri phen i'r bregeth glywsoch chi ddeugain mlynedd yn ôl, ond yn hytrach pa argraff adawyd arnoch o'i chlywed.

**Gair am bregethu**
Mae llawer y gellid ei ddweud am baratoi a chyhoeddi pregeth: gosod y testun o fewn cyd-destun y Beibl a'r cyfnod, a'i chymhwyso i'n cyd-destun presennol. Esbonio'r Gair mewn modd dealladwy i'r gwrandawyr. Wir i chi, mae yna lyfrau di-ri i'w cael ar y pwnc.

Ond yn aml fel pregethwyr, yn wir fel gwrandawyr, gallwn golli golwg ar yr elfen anhraethadwy, anesboniadwy, sef ble mae'r Gair yn glanio yng nghalon y gwrandäwr. Ym mhob achos, mae'n gyfuniad unigryw o ddawn – neu ddiffyg dawn ar adegau – y pregethwr, cyflwr calon yr unigolyn a/neu'r gynulleidfa ar y pryd, a gwaith yr Ysbryd, neu, fel y clywn yn y ddameg, yr un drwg yn cipio'r had.

Ac felly, nid mater o lwyddiant pregethwr i gyfathrebu holl swm a sylwedd ei neges yn unig ydyw, ond beth mae'r Ysbryd am i ni ei glywed a'n hangen i'w glywed. Darllenwch hanes tröedigaeth Howel Harris am enghraifft ddisgrifiadol o hyn: cyhoeddiad un Sul i fod yn barod i dderbyn y cymun bendigaid y Sul canlynol, nid hyd yn oed y bregeth!

Felly, y tro nesaf y byddwch yn plygu eich pen ar ddechrau oedfa i rwbio'ch trwyn, gofynnwch i Dduw lefaru ei air wrthych a byddwch yn barod i wrando.

**Gwrandewch!**
A dyma – yn y dechrau a'r diwedd (yn llythrennol) – yw byrdwn y ddameg. Mae'r stori a'r manylion yno i ategu hyn. Sylwch ar agoriad a chlo'r ddameg: '"Gwrandewch! Aeth heuwr allan i hau…" Ac meddai, "Y sawl sydd â chlustiau ganddo i wrando, gwrandawed." ' (Marc 4:3,9)

Rhag eich bod yn colli pwysigrwydd gwrando, cawn un ddameg ar ôl y llall am gyhoeddi'r Gair, a faint o sylw a rown iddo. Yna, mewn dyfais lenyddol, fe gawn un stori yn rhedeg i'r nesaf yn cyferbynnu'r rhai sy'n gwrando â'r rhai nad ydynt, gan ddechrau â'r 'gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo', rhai ym meddiant ysbrydion aflan, yr aflan (gwraig â diferlif gwaed), a hyd yn oed y meirw (merch Jairus). Ond yna'r ergyd ar ddechrau pennod 6: y rhai yn Nasareth oedd yn gwrthod gwrando, am ei fod yn rhy gyfarwydd iddynt.

**Beth ddigwyddodd i'r had a heuwyd ynom?**
Ystyriwch yr adran nesaf yma yng ngoleuni'r hyn a geisiais esbonio'r troeon diwethaf – am gyflwr gardd ein calon, pa dir a chwyn sydd angen eu clirio i blannu ei wirionedd ynom, a pha ddiffyg y mae'r chwyn yn ei awgrymu sydd ynom.

Fuoch chi'n ofalus o'r had, neu a wnaeth y gwylanod ei gipio o'ch dwylo, fel petae? Ei dderbyn yn llawen am ei fod yn gwneud synnwyr ar y pryd, ond yna'i esgeuluso a gadael iddo wywo?

Neu a fu ymdrech lew gan y gwirionedd i geisio lle yn eich calon, ond fod tyfiant prysurdeb a mieri bywyd wedi ei dagu?

A welsoch chi ffrwyth, neu a welodd rhywun y ffrwyth ynoch?

Wrth i mi ystyried y neges hon gwelais fideo byr a barodd i mi wylo o lawenydd. Dynes mewn oed a fu'n athrawes ar hyd ei hoes yn yr ysbyty wedi llawdriniaeth a achubodd ei bywyd. Yno mae hi'n darllen llythyr gan gyn-ddisgybl afreolus iddi yn mynegi ei ddiolch iddi am waredu ei fywyd rhag llwybr distrywgar. Ei chred hi ynddo a'i geiriau calonogol barodd iddo ddyfalbarhau nes … (wrth iddi ddarllen, yn ddiarwybod iddi daw'r llawfeddyg i mewn i'r ystafell) cyrraedd ei enw. Mae hi'n llefain o lawenydd: 'Derek, O, Derek' gan ei gofio fel bachgen cymhleth tu hwnt, cyn mynd ymlaen i ddarllen iddo'i gymhwyso hun yn llawfeddyg a chael y fraint o achub ei bywyd hithau yn ei dro. A dyma'r foment y mae hi'n ei weld …

Os gall gair athrawes garedig a gofalus ddwyn ffrwyth fel hyn, ganwaith mwy y gall geiriau'r bywyd tragwyddol, drwy waith yr Ysbryd, amlhau a chynyddu ynom a thrwom ni … dim ond i ni WRANDO.

*Hywel Edwards*

S4C
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 8 Medi, 8–9yh – Eisteddfod Wrecsam**
Nia Roberts sy'n agor cyfres newydd yn Wrecsam, bro Eisteddfod Genedlaethol 2025. Daw'r canu mawl o Gymanfa Gyhoeddi'r Brifwyl yng Nghapel Bethlehem, Rhosllannerchrugog. Ymhlith y gwesteion fydd yr Archdderwydd newydd Mererid Hopwood a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Llinos Roberts. A chawn fwynhau perfformiadau gan Gôr Ni a John's Boys.

BBC radio cymru
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 8 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r gantores opera Siân Meinir

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 8 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Shan Mayor, Llanfyllin

# Cofio Idris Owen Hughes

Dad, Taid ac Yncl Idris – dim ond rhai o'r teitlau amyrwiol oedd gan Idris ymysg y teulu. Wrth gwrs, y teitl mwyaf adnabyddus a phoblogaidd gan y cyhoedd oedd Trysorydd. Roedd Idris wrth ei fodd yn gweithio'n ddiwyd yn y cefndir, ac roedd yn cael mwynhad mawr yn gwneud hynny.

Yn wreiddiol o fferm yr Hendre, Hendre'r-ywydd, Dyffryn Clwyd, roedd Idris yn helpu ar y fferm cyn beicio i Ruthun i fynd i ysgol Brynhyfryd. Yn ei amser sbâr, y peth mawr a âi â'i fryd oedd ffwtbol. Roedd yn chwaraewr o fri ond roedd hefyd wrth ei fodd yn gwylio'r gêm. Doedd dim gwahaniaeth pwy oedd yn chwarae, y gêm oedd y peth pwysig, ac yn fwy diweddar roedd Idris yn mwynhau gêm y merched, gan ddweud ei bod hi'n fwy diddorol na gêm y dynion.

Yn syth o'r ysgol aeth Idris i'r banc, i Fanc y Midland fel roedd o ar y pryd. Gweithiodd yn galed a chael dyrchafiad i fod yn rheolwr. Dyna pryd y dechreuodd y symud tŷ: Llangefni, y Drenewydd, Cricieth, Dyffryn Ardudwy, Hen Golwyn a Llanelwy. Pan oedd yn byw yn y Drenewydd, roedd cwmni Laura Ashley yn bancio hefo'r Midland. Cystal oedd Idris fel fod Bernard Ashley yn gwrthod delio hefo neb heblaw Idris. Cafodd Idris ymddeol yn gynnar, yn 51 mlwydd oed.

Yn rhinwedd ei swydd fel rheolwr cafodd Idris ei godi'n drysorydd Sioe Dinbych a Fflint yn 1987, ac roedd yn dal i fod ynddi ar y diwedd. Sioe'r haf hwn oedd y gyntaf i Idris ei cholli ers iddo gael y swydd.

Roedd Idris hefyd yn weithgar efo nifer fawr o bethau eraill: papur bro *Y Glannau*, eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol, Canolfan Seion yn Ninbych, yr Henaduriaeth a'r enwad. Bu'n gadeirydd cynllun pensiwn EBC, yn drysorydd Cyngor yr Ysgolion Sul a Chronfa Fenthyg Sasiwn y Gogledd yn ogystal â Sasiwn y Gogledd. Roedd hefyd yn gyn-gadeirydd Bwrdd Adnoddau ac Eiddo EBC ac yn gyn-ymddiriedolwr EBC a'r Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant.


Fe'i codwyd yn flaenor am y tro cyntaf yn 1976, ac yna ym Methlehem Unedig, Llanelwy, yn 1990. Roedd bellach yn flaenor yma yn Ebeneser Unedig, Rhuddlan, wedi i Fethlehem uno ag Ebeneser. Dwi ddim yn siŵr ydw i wedi enwi pob dim, ond mae'n rhoi syniad i chi mor weithgar oedd Idris, a hyn i gyd yn ei amser ei hun.

Doedd "na" ddim yn air yr oedd Idris yn gwybod sut i'w ddefnyddio, a dweud y gwir. Roedd wastad yn hapus i helpu ac i roi o'i amser. Un peth roedd Idris wedi ei roi'n rheolaidd dros y blynyddoedd oedd gwaed, a byddai'n gwneud hynny bob tro roedd y garafán yn yr ardal. Mi gafodd dystysgrif ar ôl rhoi dros gant o beintiau o waed a medal ar ôl 150 o beintiau. Dim ond un bychan oedd o, cofiwch!

Yn y saithdegau hwyr a'r wythdegau cynnar roedd gan Hywel Gwynfryn raglen radio. Ac efallai fod rhai ohonoch yn cofio cystadleuaeth ar y rhaglen i gael slogan i'r sioe. Y slogan buddugol oedd 'Yr Iaith ar Waith', a geshiwch pwy oedd awdur y slogan ac enilydd y gystadleuaeth ... ia wir, Idris. Mae Megan, ei ferch, yn cofio Hywel Gwynfryn yn dod i Gricieth ac yn cyflwyno radio newydd iddo'n wobr.

Roedd Idris o'r farn: os ydi o yna, dringa fo. Mi aeth i ben y bont yn Sydney ac i ben Uluru (Ayres Rock). Yn fwy diweddar, roedd Idris yn dreifio drwy Lanelwy a gwelodd fod rhywbeth yn mynd ymlaen yn y gadeirlan. Felly, fe barciodd y car a mynd i ymholi. Roedd criw'n abseilio i lawr ochr y gadeirlan i godi pres. Mae llun da ohono'n cychwyn i lawr ochr y gadeirlan wysg ei gefn hefo gwên fawr ar ei wyneb.

Dim ond ychydig o ffeithiau am Idris ydi'r rhain, ond does yna ddim geiriau i ddweud yn iawn sut ddyn oedd o. Cawr o ddyn oedd yn ffeind, yn hawddgar, ac yn gefn i'r teulu. Fe wnaeth bob dim i bawb



arall. Mae Megan a Hywel yn ddiolchgar am bopeth a wnaeth eu tad iddynt ar hyd y blynyddoedd, ac mae colled aruthrol ar ei ôl. Diolchwn i Dduw am Idris ac am iddo ddefnyddio'i ddawn fel trysorydd yn y gymdeithas leol ac yn achos ei Arglwydd a'i Waredwr, Iesu Grist.

*Brian Jones* (o deyrnged a roddwyd yn ei angladd, 16 Awst 2024)

Idris Hughes (Blaenor a Thrysorydd y Cyfundeb)

Bonheddwr o fancwr fu – i'w eglwys
Yn hyglod was'naethu,
A brawd yn Gymro o'r bru
A'i olwg ar ei deulu.

*John Owen, Rhuthun*

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

**Gofalaeth y Garn, Gogledd Ceredigion**

Yn sgil ymddeoliad y gweinidog presennol ddiwedd Awst 2024, mae eglwysi'r ofalaeth uchod yn awyddus i alw gweinidog.

Gwahoddir gweinidogion ordeiniedig neu rai dan hyfforddiant i gysylltu am ragor o fanylion drwy gysylltu â Marian Beech Hughes: marian_hughes@btinternet.com; 01970 828662

erbyn 30 Medi 2024

# Antur nesaf Esgyn dan nawdd Undeb Bedyddwyr Cymru

Ar ôl croesawu criw o bobl ifanc i Dreharris ym mis Chwefror eleni, mae tîm Esgyn yn falch o gyhoeddi y bydd ail benwythnos ieuenctid Esgyn yn digwydd ym mis Tachwedd!

Bydd criw Esgyn yn dychwelyd i Ganolfan Rock UK Summit Centre yn ystod 22–24 Tachwedd, ac maen nhw'n edrych ymlaen at barhau i adeiladu'r berthynas â'r ganolfan. Mae'n cynnig gweithgareddau antur o'r ansawdd uchaf, â naws Gristnogol, gan estyn allan at bobl ifanc Cymru.

Mae tîm Esgyn yn rhannu'r un dyhead, ac yn gweddïo y bydd y penwythnosau hyn yn cynnig cyfle arbennig i bobl ifanc yn ein heglwysi a'n cymunedau ystyried 'antur ffydd' ar gyfer nhw eu hunain.

Mae **ffurflenni archebu lle** ar gyfer mis Tachwedd bellach yn fyw wefan Esgyn: Esgyn – The Baptist Union of Wales (ubc.cymru).

Estynnwn groeso i unrhyw un sy'n 11–16 oed ymuno â ni mewn anturiaethau newydd eleni wrth i ni 'ddod ynghyd i dyfu mewn ffydd, ac esgyn mewn gobaith ar gyfer cenhedlaeth newydd'!

Am fwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â thîm Esgyn drwy esgyn@ubc.cymru neu ddilyn tudalennau Instagram a Facebook Esgyn.




# Cofio David Griffith Lloyd

Bu David Lloyd, a fu farw ddechrau mis Gorffennaf eleni, yn allweddol am flynyddoedd yn hyrwyddo ac yn amddiffyn buddiannau Henaduriaeth Llundain a'i holynydd, Henaduriaeth Morgannwg–Llundain. Pwyswyd yn drwm yn aml ar ei allu a'i arbenigedd ym maes cyfraith gorfforaethol ac arolygiaeth tir, a rhoddodd yn hael o'i amser i lywio penderfyniadau'r Henaduriaeth gyda'i gyngor doeth a'i brofiad helaeth mewn meysydd a effeithiai ar dynged ei heglwysi. Fe'i codwyd yn flaenor yr un noson â'i dad yn Eglwys Lewisham yn 1965 o dan weinidogaeth y Parchedig Arthur Tudno Williams, a oedd yn dad-yng-nghyfraith iddo. Gwasanaethodd yr eglwys honno'n ffyddlon am flynyddoedd wedyn. Rhoddodd wasanaeth gwerthfawr hefyd i'r elusen 'Addoldai Cymru', gan ddod yn llywydd arni.

Cyfreithiwr oedd o ran ei alwedigaeth a daeth yn un o brif bartneriaid un o gwmnïau cyfreithiol mwyaf Dinas Llundain, Linklaters and Paines. Cerddoriaeth, a chanu'n arbennig, oedd ei brif ddiddordeb yn ei oriau hamdden ac enillodd y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn 1988.

Bu'r angladd yn Amlosgfa Tunbridge Wells ar 16 Awst, pryd y gwasanaethpwyd gan ei weinidog, y Parchedig Evan Morgan, a'r Parchedig Richard Brunt. Talwyd teyrngedau gan y Parchedig John Tudno Williams, Mr Simon Clark o Gwmni Linklaters, a'i fab, Dafydd Rhys Lloyd. Cydymdeimlir yn gywir â Mair, ei briod, ac â Rhys, Elinor a Rachel, ei blant, yn eu colled fawr.

Hirfaith orchestion gyrfa – a lieder
Baledwyr 'steddfota;
Pêr ei rawd fel opera,
Ef erys yn brif aria.

*Tomos Gwyn*

*John Tudno Williams*

# Gawsoch chi wyliau braf?



Llun: Unsplash.com

Gawsoch chi wyliau braf? Ni? Wel, do a naddo! Fe aethon ni i Lydaw gan hedfan o Birmingham a cholli'r cysylltiad i Brest. Roedden ni i fod i hedfan 'nôl ond cafwyd cyflafan Microsoft a chanslo ein hawyren ni. Dyna un enghraifft o'r ffordd y mae systemau digidol yn rheoli cymaint o bethau yn ein byd.

Felly, dyma ddal trên am 5.20 y bore i Baris ac yna dal yr Eurostar i St Pancras ac adre mewn 14 awr. Pedwar diwrnod i ddod atom ein hunain! Mynd i'r Eisteddfod ar y dydd Iau a chael ein boddi … gan law! Ie, tipyn o gymysgwch fu ein gwyliau ni.

Y trafferth yw ein bod ni, fel mwy a mwy ohonom, yn ymddwyn fel petai'n rhaid i ni fedru mynd i unrhyw le yn ôl ein mympwy. Ac mae cwmnïau awyrennau America yn ceisio rhwystro ymchwil i faint o lygredd y mae awyrennau'n ei gynhyrchu.

Fe wyddom yng Nghymru am broblemau twristiaeth a thai haf. Mae'r holl deithio wedi mynd yn drech na'r dinasoedd. Mae'r boblogaeth yn ymrannu rhwng y rhai sy'n elwa wrth fyw mewn mannau braf, a'r rhai sy'n talu'r pris am hynny. Mae tai haf a *bnb* yn gwthio prisiau tai y tu hwnt i gyrraedd pobl leol, a'r cyfforddus yn mynnu rhyddid i godi prisiau. Ac mae codi trethi'n digio'r perchnogion.

Mae Airbnb yn ffordd handi i wneud arian, a chlywais am un teulu'n mynd i gampio am fod Airbnb yn rhy ddrud. Yn Barcelona mae'r cyngor lleol yn bygwth torri'r cyflenwad dŵr i dai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Airbnb. Mae llogi fflat yng Nghaerdydd am un noson pan fo rhyw gyngerdd mawr ymlaen yn fodd i fanteisio ar y brwdfrydigion, a'r gwestai swyddogol hwythau yn codi prisiau drwy'r to. Diau bod y brodyr Gallagher (Oasis gynt) eisoes wedi gwthio prisiau lan ar gyfer yr haf nesa'!

Ganrif yn ôl, os oedd Cymro neu Gymraes eisiau mynd i Seland Newydd, roedd yn peri loes i rieni am eu bod yn poeni na welent eu plentyn byth eto. Heddiw, mae pobl yn hedfan i ben draw'r byd am bythefnos, ac awyrennau'n llygru'r awyr. Mae newid y tywydd yn fygythiad enbyd ond ychydig sy'n mynnu teithio ar drên heb gael eu gorfodi, fel ni. Rydyn ni'n gyndyn iawn i arafu – ydych chi wastad yn cadw dan 20 milltir yr awr?

Pam ydyn ni'n methu gweld tu hwnt i'n trwynau? Pam mae rhyddid a chyfleustra personol yn bwysicach na'r perygl anferth sydd ar y gorwel?

Dywed Salm 15 am fyw cyfiawn: "Yr un sy'n byw yn gywir, yn gwneud cyfiawnder ac yn dweud y gwir yn ei galon; un nad oes malais ar ei dafod, nad yw'n gwneud niwed i'w gyfaill, nac yn goddef enllib am ei gymydog."

Byddai 'gwerthoedd' y salmau yn well canllaw i bobl na'r syniad mai arian yw unig fesur 'llwyddiant'. Byddai'n gwella'r byd gwleidyddol yn syth ac yn ei gwneud yn bosibl trafod gyda'n gilydd heb fwrw sen na difrïo personol.

*Enid Morgan*
*(Cyhoeddwyd gyntaf fel e-fwletin Cristnogaeth21, 1 Medi 2024)*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru